EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020

Rhif 85 Unawd Cerdd Dant Bl 10 a dan 19 oed
'Gwynt yr Hwyr' – Tudur Dylan Jones
Cainc: 'Nest' – Sioned Williams (122)
Copi o'r geiriau a'r alaw ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn

Eisteddfod

NEST

Trefn y gainc: 122

Sioned Williams



Unawd Bl 10 a dan 19
Cainc: Nêst 1 2 2

Gwynt yr Hwyr

Ti yw'r lleuad ar y gorwel
uwch y nos o awr i awr;
ti sy'n lliwio'r ffordd i'r camau
ar fy llwybyr tua'r wawr.
Ond daeth gwynt yr hwyr i'm llethu
wrth i lwybrau'r nos ddiflannu,
gan fod un cwmwl rhyngom ni.

Ti yw'r fflam sy'n llosgi'n isel
ym mhelydrau'r oriau mân,
gan fod calon imi'n gannwyll,
gan fod golau imi'n gân.
Ond hen wynt yr hwyr gusanodd
ruddiau'r fflam, ac yna'i diffodd
gan adael oerni rhyngom ni.

Ti sy'n gwasgar y goleuni
nes troi'n llaith holl iaith y lli;
ti sy'n torri'n ddarnau arian
ar hyd traeth fy hiraeth i,
wrth i wynt yr hwyr yn dawel
adael lleuad ar y gorwel
uwch llanw'r don i'n huno ni.